Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



# Aros yn Dda

## Cefnogi pobl sy'n aros am ddiagnosis iechyd meddwl i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod pobl sy'n aros am ddiagnosis o gyflwr iechyd meddwl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, fel eu bod nhw'n gallu 'aros yn dda'.

Trwy'r gwaith hwn, ein gobaith yw:

- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn cael eu hintegreiddio'n well, fel nad yw pobl yn cael eu trosglwyddo rhwng gwasanaethau lluosog heb gymorth a chefnogaeth ddigonol.
- Sicrhau bod pobl yn cael eu gosod yng nghanol cynllunio gofal a chymorth ac yn derbyn y gwasanaethau perthnasol.
- Sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael yn hawdd fel bod pobl yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau a'r darpariaethau sydd ar gael iddynt.
- Gwella mynediad at gymorth, gan gynnwys hunan-atgyfeirio ac atgyfeirio gan Feddyg Teulu, i gyflymu diagnosis posibl a phawb i ddechrau triniaeth yn gynt.





### BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â PHROBLEMAU IECHYD MEDDWL?

Hoffai pobl integreiddio gwasanaethau'n well i ddarparu cymorth holistig i'r person.

Hoffen nhw weld llwybrau gwell i gael mynediad at gymorth hefyd, gan gynnwys hunan-atgyfeirio i gyflymu'r daith i ddechrau triniaeth yn gynt.

Gallai ymyriadau cynnar gynnwys rhagnodi cymdeithasol a chymorth cyfryngol yn y gymuned hyd nes y gellir cael diagnosis ffurfiol.

### DYWEDODD POBL

"Pam fod angen i ni gael timau ar wahân... pam na allwn ni gael un tîm yn unig yn gweithio gyda'n gilydd."

### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Mae gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn cael eu hintegreiddio'n well, felly nid yw pobl yn cael eu trosglwyddo rhwng gwasanaethau lluosog heb gymorth a chefnogaeth ddigonol.

**Parhad trosodd.**

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



# Aros yn Dda (Parhad)



**"Mae angen i bobl siarad â'i gilydd, er enghraifft, mae gen i ddyn fan hyn, sut allwn ni gydweithio i'w helpu."**



## DYWEDODD POBL

Mae angen i wasanaethau gefnogi'r person cyfan."

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD (PARHAD):

- Mae pobl yn cael eu rhoi wrth galon cynllunio gofal a chymorth ac yn derbyn y gwasanaethau perthnasol.
- Mae gwybodaeth allweddol ar gael yn hawdd fel bod pobl yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau a'r darpariaethau sydd ar gael iddynt.
- Gwell mynediad at gymorth, gan gynnwys hunan-atgyfeirio ac atgyfeirio gan Feddyg Teulu, i gyflymu diagnosis posibl a chaniatáu i bobl ddechrau triniaeth yn gynt.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd pobl yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw aros am asesiad a / neu ddiagnosis.
- Bydd pobl yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant sydd ar gael iddyn nhw.
- Mae pobl yn cael cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau am y cymorth maen nhw'n ei gael.
- Gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau cymorth sector gwirfoddol / amgen sydd ar gael.

